5.50 1/-

# CAN ANERCHIADOL

I

# G. W. DUFF ASSHETON SMITH, Ysw.,

AER Y FAENOL,

## AR EI DDYFODIAD I'W OED.

MESUR:—"*Rodney March.*"

1. MAE anerch Aer y Faenol
Yn waith rhagorol gân,
Er mawr ddymuniant llwyddiant fyddo
I'w lunio iddo'n lân;
Mae'r Faenol yn mro Arfon,
Ar fron oruchel fri,
O hen sefydliad bonedd deulu,
A'r rhai'ny 'n enwog ri';
A'r un oeddynt gyda'r Penrhyn,
A'r Plas Newydd, Môn, i'w dilyn.
Aent i daith oedd dra pheryglus,
Sef i ryfel boeth arswydus,
Nes cyrhaedd i Faes Bosworth,
Yn eorth bawb yn un,
O blaid Hari Tudur Mona,
Yn fyddin llawna'u llun.

2. Ond yno syrthiodd Richard
A'i gâd o'r bron i gyd,
Ar ol hyny coroni Hari
Gan fyddin Cymry 'nghyd,
Mae'r Faenol eto'n enwog,
Hi fydd ardderchog fyth,
Ac yno'n byw o deulu rhadlon
Mae GEORGE ASSHETON SMITH,
Mae ef o hil Cefnamwlch deulu,
Ac o Lima'n uniawn hanu,
Iawn foneddion Arfon ydynt
O'r pymtheg llwyth yn Ngwynedd deuynt.
O'r rhai'ny daeth Victoria,
Ein Banon ninau'n awr,
Sy'n llywodraethu'i phobl yn gywrain
O fewn ein Brydain Fawr.

X205213 17X

3. Mae Aer y Faenol yntau,
O'i neiniau 'i deidiau'n dod
O hil Gomer enwog emau,
Fu bena' o'n blaenau'n bod;
Ac o'r hen Brydain lwythau,
Sylfaenwyr breiniau'n bri,
Ac Arthur, frenin Brydain gaerog,
Fu'n enwog gyda ni.
A Hari saith, sef Hari Tudur,
O Brydain eto o'r un natur,
Ac o'r un hil daeth Aer y Faenol,
Iawn yw dywedyd teulu tadol.
Ei ganmol sydd yn gymwys
Heb orphwys tra bo'm byw,
A llwyddo bo ei oes i redeg
Drwy deg ragluniaeth Duw.

4. Ei 'stad sydd fawr ragorol,
O hen dreftadol dir,
Ac iddo'n disgyn o'i hen hynaif,
Hon saif yn Arfon sir;
Mae ynddi fwnau coper,
Mewn tryder mawr mae'r trâd;
Ond mwnau'r llechi sy'n rhagori,
Er llenwi mawr wellhad.
A bro Llanberis ydyw'r llefydd
Lle mae'r llechau mewn mawr gynydd,
Er digoni Brydain diroedd
Ac ermyru llongau'r moroedd;
Ac felly gwaith i bobloedd
Yn lluoedd yn mhob lle,
Er llenwi eisiau y teyrnasoedd
A'r 'nysoedd is y ne'.

5. Mae'n iawn i Aer y Faenol,
Yn unol er mwynhad,
I ymbriodi â'r Cymry gwaedol
O'r hen frenhinol had;
Mae pymtheg llwythi Gwynedd
Mewn mawredd yn ein mysg,
O'r rhai'n mae *ledis* ein palasau
Yn meddu doniau dysg.

W.146.37 (P.)

Dyma ddefnydd mamau enwog,
Ac yn rhianod hil coronog;
Addas famau i frenhinoedd,
O ba'i eisiau, i deyrnasoedd.
Maent oll yn *ledis* gwridog,
Ac o ardderchog wawr—
O'r rhai'n doed llwythau cenedlaethol
O fewn i'r Faenol Fawr.

6. Ac hefyd Aer y Faenol
Fo'n llwyddol er gwellhad,
I fod yn Farchog sir Gaernarfon,
Dros glydion bobl ein gwlad;
Pan ddelo'r ffordd yn oleu,
Gwnawn ninau bob yn un
Er rhoddi'n SMITH o fewn ein Senedd,
A'n tuedd yn gytun.
Ac iawn y byddo'n cynddrychioli,
Er anrhydedd i'w fawrhydi,
Fel bo'n heisiau ninau'n haeddol
O dan fwyniant Aer y Faenol;
A'r Cymry fo'n rhinweddol,
Yn unol is y nen,
Ac Aer y Faenol mewn anrhydedd,
Is mawredd Iesu, Amen.

OWEN WILLIAMS.

WAUNFAWR,
*Llun y Sulgwyn*, 1869.

---

PENILLION AR YR UN TESTYN, GAN CLWYDFARDD.

TÔN:—"*Ymdaith Gwyr Harlech.*"

DOWCH, drigolion Môn ac Arfon,
Gyda'ch gilydd o un galon
Gywir addas wladgaryddion,
Heddyw i gadw gwyl;
Doed ein pendefigion hefyd
I fwynhau y wledd ddarparwyd;
Ymorlonwch, dowch mewn bywyd,
Dowch mewn hyfryd hwyl.

Gwroniaid gwlad y bryniau,
Dyrchefwch eich banerau,
Hen Gymry glan, gwlad y gân,
Yn ddyddan bo'ch am ddyddiau;
Wele'r diwrnod wedi gwawrio,
Bu dysgwyliad hir am dano,
Bendith nefoedd fawr fo arno
  Tra bo'r byd yn bod.
Daeth ASSHETON SMITH anwylgain
I'w hygar un-ar-hugain,
Yn Aer i 'stat o fewn ein gwlad
Sydd mewn mawrhad yn Mrydain:
Gorfoleddwn, llawenychwn,
Gwawriodd arnom enwog ddwthwn;
Hwre filwaith heddyw floeddiwn
  Nes dadsain cylchau'r rhod.

Heddyw telir yn ein talaeth
Gan oreugwyr wir warogaeth,
Iddo miloedd r'ont ganmoliaeth,
Yr odiaeth wron syw.
Ust! mae'r dosparth gweithiol hefyd
Oll yn wresog a llawn yspryd
Yn mawrygu'r dydd ei ganwyd,
  A'i enwog gylchwyl wiw;
Clywch uchel swn magnelau,
A hoffus glych ein llanau,
A pheraidd sain ein corau cain
Yn dadsain ein mynyddau:
Brysier, tanier ein coelcerthi
Ar bob copa o'r Eryri;
Cymru lanwer â goleuni,
  O barch a bri dilyth.
Tra'r erys tir Eryri
A'i banau teg uchelfri,
A thra bo gwlad hen Gymru fad
Mewn gwir fawrhad yn oesi:
Tra t'w'no'r haul ar grib y Wyddfa,
Enw ASSH'TON SMITH ni phalla,
Aer y Vaenol yn Arfonia
  Berarogla byth.

---

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE, CAERNARFON.